**Rhif: WG30632**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Diwygiadau i Reoliadau yn ymwneud â Rhan 4 y Ddeddf (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 y Ddeddf (gosod ffioedd ac asesiad ariannol)**

Chwefror 2017

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Crown Copyright Digital ISBN 978-1-4734-7876-3

## Crynodeb o’r Ymgynghoriad – Diwygiadau i Reoliadau sy’n ymwneud â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (gosod ffioedd ac asesiad ariannol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Cynnwys** **Tudalen**


**Adran 1**

Cyflwyniad 2

Cefndir 2

Y dystiolaeth o blaid newid 3

Y cynigion 3

**Adran 2**

Ymatebion i gwestiynau’r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru 4

Y Camau Nesaf 9

**Atodiad A**

Rhestr o ymatebion 10

## Adran 1

Cyflwyniad

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar reoliadau diwygio sy'n cynnig cyflwyno newidiadau i dair cyfres o brif reoliadau sy'n llywodraethu codi tâl am ofal a chymorth cymdeithasol gan awdurdodau lleol. Mae'r rheoliadau ar waith o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf). Roedd y ddogfen ymgynghori yn nodi pob un o'r newidiadau y bydd y rheoliadau diwygio yn eu cymhwyso i'r prif reoliadau, ynghyd â gwybodaeth fanylach ar bedwar o'r newidiadau allweddol. Roedd drafft o'r rheoliadau diwygio yn rhan o'r dogfennau ymgynghori.

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cadarnhau y byddai diweddariadau yn cael eu cymhwyso i'r adrannau cyfatebol o god ymarfer a wnaed o dan y Ddeddf. Mae'r cod yn cefnogi pum cyfres o reoliadau sydd ar waith o dan Ran 4 (yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (yn ymwneud â gosod ffioedd ac asesiad ariannol).

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 21 Rhagfyr 2016 a daeth i ben ar 25 Ionawr 2017.

Derbyniwyd cyfanswm o 24 o ymatebion. Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A. Ceir crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru yn Adran 2.

Cefndir

Y Ddeddf yw sylfaen y fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r fframwaith statudol hwn yn cynnwys tair prif elfen: y Ddeddf ei hun; rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a; chodau ymarfer/canllawiau statudol a wnaed o dan y Ddeddf hon. Mae'r tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y mae gofal cymdeithasol yn gweithredu oddi mewn iddo. Daeth y rheoliadau, y codau a'r canllawiau statudol o dan y Ddeddf i rym ar 6 Ebrill 2016.

O ran gosod ffioedd ac asesiad ariannol, gwnaed pum cyfres o reoliadau o dan Ran 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (gosod ffioedd ac asesiad ariannol) y Ddeddf, gydag un cod ymarfer. Daeth y rhain i rym ar 6 Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn rhoi caniatâd i awdurdodau lleol ddefnyddio'u disgresiwn, o dan amgylchiadau penodol, i godi tâl am ofal a chymorth cymdeithasol. Mae hefyd yn caniatáu iddynt ddefnyddio'u disgresiwn i godi ad-daliadau neu gyfraniadau ar gyfer derbyn taliadau uniongyrchol. Mae'r rheoliadau a'r cod yn darparu fframwaith clir y mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithredu oddi mewn iddo pan fyddant yn defnyddio'r disgresiwn hwn.

Y dystiolaeth o blaid newid

Ers gweithredu'r Ddeddf a'i rheoliadau a'i chodau ymarfer cysylltiedig, mae nifer o newidiadau wedi eu cynnig sy'n effeithio ar y trefniadau presennol. Mae rhai ohonynt o ganlyniad i raglen pum mlynedd "Symud Cymru Ymlaen" newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer ymrwymiadau'r llywodraeth, rhai ohonynt oherwydd angen i wneud diweddariadau amrywiol eraill, a rhai ohonynt oherwydd yr angen i wneud nifer o fân newidiadau technegol. O ganlyniad, bwriedir i'r prif newidiadau canlynol ddod i rym o 10 Ebrill 2017. Roedd rhagor o fanylion am y rhain, a'u heffaith, wedi eu nodi yn y ddogfen ymgynghori a gyflwynwyd:

- cynyddu'r terfyn cyfalaf sy'n gymwys wrth godi tâl am ofal preswyl o £24,000 i £30,000;
- anwybyddu'r Pensiwn Anabledd Rhyfel yn llwyr wrth gynnal asesiadau ariannol ar gyfer gosod ffioedd am ofal a chymorth;
- cynyddu'r uchafswm tâl wythnosol a gymhwysir i ofal a chymorth dibreswyl;
- cynyddu lefel y lleiafswm incwm a gymhwysir wrth godi ffioedd am ofal preswyl o £26.50 yr wythnos i £27.50 yr wythnos.

Yn ogystal â'r prif newidiadau uchod, cynigiwyd nifer fach o newidiadau technegol i roi eglurhad mewn meysydd penodol. Ymhelaethwyd ar y rhain yn y ddogfen ymgynghori.

Ceir rhagor o wybodaeth am y sail ar gyfer codi arian am ofal a chymorth gan awdurdodau lleol, y dystiolaeth dros y newidiadau a'r ystod lawn o newidiadau a gynigir yn y ddogfen ymgynghori a gyflwynwyd. Mae hon ar gael yn: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/codi-tal-am-ofal-cymdeithasol

Y cynigion

I weithredu'r newidiadau uchod cynigir gwneud cyfres o reoliadau i ddiwygio'r tair cyfres hyn o brif reoliadau a wnaed yn flaenorol o dan Ddeddf 2014. Cafodd y rheoliadau diwygio hynny eu cynnwys yn y ddogfen a gyflwynwyd. Cynigir bod y rheoliadau diwygio yn cael eu cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Chwefror er mwyn iddynt ddod i rym ar 10 Ebrill 2017.

## Adran 2

**Ymatebion i Gwestiynau'r Ymgynghoriad ac Ymateb Llywodraeth Cymru**

| **1. A ydych yn dymuno tynnu sylw Llywodraeth Cymru at unrhyw ganlyniadau posibl i'r penderfyniad i godi'r terfyn cyfalaf?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | 19 | Nac ydw | 5 |

Ymatebion a Dderbyniwyd

- Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn croesawu'r cynnig i gynyddu'r terfyn cyfalaf sy'n ymwneud â chodi ffioedd am ofal preswyl a gwneud hynny bob yn dipyn.
- Ni nodwyd unrhyw ganlyniadau penodol o weithredu'r cynnydd hwn bob yn dipyn. Er hyn, cwestiynodd sawl un o'r ymatebwyr pam nad oedd amserlen wedi'i phennu hyd yn hyn i weithredu'r ymrwymiad yn llawn i gynyddu'r terfyn cyfalaf wrth godi ffioedd am ofal preswyl i £50,000.
- Codwyd nifer o faterion ynghylch pa un a fyddai cyllid ar gael i weithredu'r cynnydd cyntaf i £30,000.
- Roedd galwadau i ystyried sefydlu trefniadau monitro i sicrhau bod y cyllid i gefnogi'r gweithrediad yn ddigonol.
- Codwyd rhai materion ynghylch y terfyn cyfalaf yn gysylltiedig â chodi ffioedd am ofal dibreswyl yn aros ar ei lefel gyfredol sef £24,000, gan greu gwahanol lefelau wrth godi ffioedd am ofal preswyl a gofal dibreswyl.
- Mynegwyd materion ynghylch sicrhau bod trefniadau cyfathrebu digonol a phriodol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y rhai hynny y gallent gael eu heffeithio gan y terfyn cyfalaf newydd yn cael gwybod am y newid. Ystyriwyd bod angen sicrhau bod gwybodaeth am y newid yn cael ei thargedu at y gynulleidfa gywir, e.e. preswylwyr cartrefi gofal presennol a'u teuluoedd, yn ogystal â phobl sydd ar fin symud i ofal preswyl.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae cyllid gwerth £4.5 miliwn yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol i dalu'r gost a amcangyfrifir ar gyfer cynyddu'r terfyn cyfalaf i £30,000 am ofal preswyl. Mae hyn yn seiliedig ar ymchwil annibynnol a gynhaliwyd i nodi costau cysylltiedig ac mae'r cyllid hwn wedi ei gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol ar gyfer 2017-18.

Y cyngor blaenorol gan gynrychiolwyr rhanddeiliaid oedd y dylai'r cynnydd yn y terfyn i £50,000 gael ei weithredu bob yn dipyn. Roedd hyn er mwyn caniatáu i ddarparwyr cartrefi gofal ac awdurdodau lleol addasu i effeithiau'r newid hwn. Dyma pam nad oes amserlen benodol wedi'i phennu hyd yn hyn ar gyfer unrhyw gynnydd pellach. O ganlyniad, mae trefniadau'n cael eu rhoi ar waith gydag awdurdodau lleol i fonitro effaith y cynnydd hwn, o ran ei gost a'i oblygiadau o ddydd i ddydd. Bydd y wybodaeth hon yna'n llywio ystyriaethau'r

Gweinidogion o amseriad a natur unrhyw gynnydd pellach i’r terfyn cyfalaf mewn gofal preswyl tuag at derfyn o £50,000.

Mae’r terfyn cyfalaf pan gaiff ei gymhwyso i godi ffioedd am ofal dibreswyl i aros ar ei lefel bresennol sef £24,000. Mae hyn oherwydd y sail wahanol ar gyfer ystyried eiddo unigolyn wrth gyfrifo gwerth ei gyfalaf. Wrth godi ffioedd am ofal dibreswyl ni ystyrir prif neu unig gartref yr unigolyn yn y cyfrifiad hwnnw oherwydd y ffaith ei fod yn byw yno. O ganlyniad, mae’r terfyn cyfalaf wrth godi ffioedd am ofal dibreswyl ddim ond yn gymwys i fathau eraill o gyfalaf, fel arfer ar ffurf cynilion, buddsoddiadau neu ail eiddo y gallai’r unigolyn fod yn berchen arno. Nid yw hyn yr un fath â’r sefyllfa wrth godi ffioedd am ofal preswyl, pan ystyrir cartref unigolyn os nad oes perthynas cymwys, megis partner, yn byw ynddo.

Trafodir strategaeth gyfathrebu, i roi gwybodaeth i’r bobl hynny a allai gael eu heffeithio gan y newid hwn, yn fanylach o dan Gwestiwn 5.

**2. A oes gennych chi unrhyw sylwadau am y penderfyniad i anwybyddu’r pensiwn anabledd rhyfel yn llwyr?**

| Oes | 13 | Nac oes | 11 |
|---|---|---|---|

Ymatebion a Dderbyniwyd

- Roedd llawer iawn o gefnogaeth i anwybyddu hyn yn llwyr, ac ystyriwyd bod hwn yn gam teg a chadarnhaol.

- Gan fod y ddarpariaeth hon yn effeithio ar nifer gymharol fach o bobl sy’n derbyn gofal a chymorth, ychydig iawn o sylwadau ac arsylwadau a oedd gan yr ymatebwyr i’w cynnig.

- Awgrymwyd y dylid cynnal ymarfer monitro i sicrhau bod unrhyw gyllid a neilltuir i gefnogi gweithredu hyn yn ddigonol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae cyllid gwerth £0.3 miliwn yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol i dalu’r gost a amcangyfrifir ar gyfer anwybyddu’r pensiwn anabledd rhyfel yn yr asesiadau ariannol wrth godi ffioedd. Mae hyn yn seiliedig ar ymchwil annibynnol a gynhaliwyd i nodi’r costau cysylltiedig ac mae’r cyllid hwn wedi ei gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol ar gyfer 2017-18.

Ni ddyfernir Pensiwn Anabledd Rhyfel i gyn-filwyr sy’n cael eu hanafu yn ystod gwasanaeth gweithredol erbyn hyn, gan ei fod wedi ei ddisodli gan drefniadau eraill y mae’r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi eu sefydlu ar gyfer y rhai sydd yn y sefyllfa hon. Hefyd, mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes wedi anwybyddu’r Pensiwn Anabledd Rhyfel yn eu hasesiadau ariannol wrth godi ffioedd. O ystyried hyn, a nifer gymharol fach y bobl hynny y bydd y newid hwn yn effeithio arnynt, nid yw’n glir a oes angen mynd ati i fonitro effaith lawn gweithredu’r newid hwn ai peidio. Bydd swyddogion felly yn ystyried hyn ymhellach gyda swyddogion awdurdodau lleol.

| **3. A ydych chi'n cytuno bod y cynnydd hwn yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng helpu i greu mwy o incwm i awdurdodau lleol (i'w helpu i ymdopi â'r pwysau cost cynyddol o ran darparu gofal a sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir) a chodi tâl teg a fforddiadwy ar bobl sy'n cael gofal dibreswyl?** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno | 3 | Tueddu i gytuno | 6 | Tueddu i anghytuno | 2 | Anghytuno | 7 |

Ymatebion a Dderbyniwyd

- Cafwyd cymysgedd o safbwyntiau, gan y bobl hynny a oedd yn cefnogi'r cynnydd yn gryf a chan y bobl hynny a oedd yn gwrthwynebu'r cynnydd yn gryf neu'n credu bod angen cynnydd ond a oedd o'r farn bod y lefel a gynigir ar gyfer hyn yn rhy uchel.

- Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnydd o'r farn ei fod yn angenrheidiol er mwyn cynnal ansawdd a swm gofal a chymorth dibreswyl wrth wynebu costau cynyddol. Roeddynt o'r farn bod gofyn am gyfraniad uwch tuag at y costau hyn gan y bobl hynny a oedd yn y sefyllfa orau i'w dalu yn ddull rhesymol.

- Mynegwyd dwy brif farn gan y rhai nad oeddynt yn cefnogi'r cynnydd. Yn gyntaf, roedd y farn mai'r bobl hynny sydd mewn tlodi a fyddai'n talu'r cynnydd ac felly y bobl a allai ei fforddio leiaf. Yn ail, bod y cynnydd yn rhy uchel o'i gymharu â chyfradd bresennol chwyddiant. O ganlyniad, awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y byddai hyn yn arwain at fwy o bobl yn symud i ofal preswyl.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae camau diogelu ariannol ar gyfer pobl ar incwm isel wedi bodoli yn y trefniadau ar gyfer codi ffioedd am ofal dibreswyl ers blynyddoedd lawer ac nid oes unrhyw gynlluniau i ddiddymu'r rhain. O dan y rheoliadau presennol mae'n rhaid i awdurdodau lleol ganiatáu i unigolyn y codir ffioedd arno am ei ofal dibreswyl gadw swm llawn ei "fudd-dal cymwys" (e.e. Cymhorthdal Incwm, Credyd Pensiwn) ac unrhyw bremiymau y mae'n eu denu, ynghyd a swm sy'n gyfartal â 35% o hynny. Mae'n rhaid i awdurdodau hefyd ganiatáu i'r unigolyn gadw 10% arall o hyn fel cyfraniad tuag at unrhyw wariant sy'n gysylltiedig ag anabledd y gallai fod ganddo. Yn sgil hyn mae'n rhaid i unigolyn y codir ffioedd llawn arno gadw swm llawn ei fudd-dal cymwys a'i bremiymau, ynghyd â 45% o'r swm hwnnw.

O ganlyniad, mae'r trefniadau hyn yn golygu nad yw oddeutu traean o'r bobl hynny sy'n derbyn gofal dibreswyl yn talu unrhyw ffioedd, a bod traean arall ddim ond yn talu ffioedd hyd at yr uchafswm tâl wythnosol a bennir. Ni fyddai unrhyw gynnydd i uchafswm y ffioedd wythnosol yn effeithio ar ffioedd yr unigolion hyn felly.

Dim ond y rhai hynny sy'n talu'r uchafswm ar hyn o bryd a fyddai'n cael eu heffeithio. Bydd unigolyn sydd yn y sefyllfa hon ar hyn o bryd yn talu'r uchafswm oherwydd bod ganddo becyn gofal a chymorth dibreswyl sy'n costio

£60 neu fwy bob wythnos (lefel bresennol uchafswm y ffioedd) ac sy’n:

- derbyn incwm wythnosol o’i gamau diogelu ariannol a £60 yr wythnos o leiaf; neu
- fod ganddo gyfalaf o £24,000 neu fwy (y terfyn cyfalaf); neu
- ei fod yn gwrthod datgelu ei fodd ariannol ond yn dal i ddymuno derbyn ei becyn gofal.

Felly, byddai unrhyw gynnydd i’r uchafswm ddim ond yn effeithio ar y rhai y mae’r sefyllfaoedd uchod yn berthnasol iddynt.

Derbynnir bod lefel y cynnydd a gynigir yn uwch na chyfradd gyfansawdd chwyddiant dros y ddwy flynedd ddiwethaf ers cynyddu’r uchafswm o’r blaen. Fodd bynnag, nid chwyddiant yn unig yw’r rheswm am lefel y cynnydd a gynigir. Mae gwaith wedi’i wneud yn flaenorol gyda llywodraeth leol ar effaith ariannol mentrau gweithlu ar y sector, sef cyflog byw cenedlaethol Llywodraeth y DU er enghraifft. I gynorthwyo i fodloni’r effaith hon mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newid lefel yr uchafswm i ganiatáu i awdurdodau lleol gasglu incwm ffioedd ychwanegol. Yn ogystal â hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi £10 miliwn ychwanegol yn uniongyrchol i awdurdodau lleol bob blwyddyn o 2017-18. Ystyrir bod y ddau hyn yn helpu i fodloni’r effaith ariannol hon ar y sector, er mwyn cynnal ansawdd a swm y gofal y mae pobl yn dibynnu arnynt.

**4. Pa effaith ydych chi’n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn ei chael ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Disgrifiwch nhw.**

Ymatebion a Dderbyniwyd

- Roedd sawl un o’r ymatebwyr o’r farn nad oedd y derminoleg a ddefnyddir yn yr adran hon o gymorth, gan nad oedd yn esbonio’r hyn a olygir gan “nodweddion gwarchodedig”.  Roedd sylwadau eraill yn sôn am effaith negyddol codi ffioedd am ofal a chymorth ar bobl ag anableddau, pobl hŷn, pobl ar incwm isel a chyfalaf/cyfoeth eiddo isel, ac ar fenywod a oedd yn debygol o gyflawni swyddogaeth gofalwr anffurfiol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae gan awdurdodau lleol yr hawl i ddefnyddio eu disgresiwn wrth godi ffioedd am y gofal a’r cymorth y maent yn ei ddarparu neu yn ei drefnu. Ceir rhagdybiaeth y byddant yn codi ffi, neu’n codi ffi ar bob achlysur. Pan fyddant yn gwneud hynny, mae’r ffi a godir yn seiliedig ar allu ariannol unigolyn i dalu (gan gofio’r camau diogelu ariannol sy’n bodoli ar gyfer pobl ar incwm isel) ac nid ffactorau fel eu rhyw, eu hoedran na’u statws priodasol.

Er hyn, mae asesiad llawn o effaith y newidiadau a gynigir yn cael ei gynnal ar sail cydraddoldeb, y Gymraeg a hawliau’r plentyn a byddant ar gael maes o law.

**5. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r cynigion a godir yn yr ymgynghoriad hwn nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod i ni amdanynt.**

<u>Ymatebion a Dderbyniwyd</u>
Cynigiodd yr ymatebwyr sylwadau ar nifer o faterion eraill, rhai ohonynt yn ymwneud â chodi ffioedd am ofal a chymorth a rhai ohonynt yn ymwneud â meysydd eraill, sef:

- bod hyd y cyfnod ymgynghori yn rhy fyr;
- pryderon na fydd y strategaeth gyfathrebu yn cyfleu'r neges i'r bobl a gaiff eu heffeithio gan y newidiadau;
- lefel yr isafswm incwm a ddefnyddir mewn gofal preswyl (y MIA – y swm o incwm y mae unigolyn mewn gofal preswyl yn ei gadw i'w wario fel y mae'n dymuno);
- dewis o drefniadau llety, lle caiff cyfnod byrdymor o wyth wythnos ei ymestyn wedi hynny y tu hwnt i wyth wythnos;
- galwadau am gyflwyno cronfa i ofalwyr.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>
Roedd cyfnod ymgynghori llai nag a geir fel arfer yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau a gyflwynir yn cyd-fynd â pha bryd y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn diweddaru ac yn adolygu budd-dal lles a chyfraddau pensiwn gwladol ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18. Y dyddiad hwnnw yw 10 Ebrill 2017. I gyflawni hyn, byddai angen gosod rheoliadau diwygio i weithredu unrhyw newidiadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn diwedd mis Chwefror. Felly byddai angen i'r ymgynghoriad gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Ionawr.

Mae strategaeth gyfathrebu yn cael ei datblygu i sicrhau bod y bobl hynny a gaiff eu heffeithio gan unrhyw newidiadau yn cael gwybod amdanynt. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno deunydd i'r wasg, ond yn fwy pwysig darparu gwybodaeth i'r sefydliadau hynny y mae pobl sydd angen gofal a chymorth yn debygol o gysylltu â nhw, e.e. awdurdodau lleol, Age Cymru, Anabledd Cymru, darparwyr gofal, Cyngor ar Bopeth.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod pobl mewn gofal preswyl sy'n derbyn cymorth ariannol gan eu hawdurdod lleol, o leiaf yn cadw cyfanswm y MIA. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol yr hawl i ddefnyddio'u disgresiwn i alluogi unigolyn i gadw swm uwch o'r incwm wythnosol os ydynt yn dymuno. Gallai hyn fod yn wir pan fo unigolyn yn dymuno talu am ddiddordeb neu weithgaredd penodol a fyddai'n cefnogi ei les.

Nid yw'r newidiadau a gynigir yn cyflwyno unrhyw ffioedd polisi yn ymwneud â'r dewis o lety neu pan fo gofal byrdymor yn newid i fod yn arhosiad dros dro neu hyd yn oed yn arhosiad parhaol dros amser.

Mae'r galwad am gronfa i ofalwyr wedi ei godi'n flaenorol gyda Llywodraeth Cymru ac mae'n cael ei ystyried ar wahân.

Y Camau Nesaf

Mae ymatebion yr ymgynghoriad, a'r crynodeb hwn, yn cael eu hystyried gan Weinidogion wrth iddynt wneud eu penderfyniad terfynol i ddiwygio'r rheoliadau yr ymgynghorwyd arnynt ai peidio ac os felly, pa un a wneir unrhyw addasiadau iddynt yn sgil hynny. Caiff y crynodeb hwn ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/codi-tal-am-ofal-cymdeithasol

Caiff unrhyw reoliadau diwygio a wneir eu cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn diwedd mis Chwefror yn unol â'r weithdrefn ddeddfwriaethol a nodir yn Neddf 2014.

**<u>Atodiad A</u>**

**Rhestr o'r ymatebion**

| Rhif | Cyfrinachol Y | / N Y | Enw | Sefydliad/Ar ran |
|---|---|---|---|---|
| 1 | | N Y | Peter Evans | Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| 2 | | N Y | William Albert Parker | Amherthnasol |
| 3 | | N Y | Charlotte Walton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| 4 | | N Y | Ann Williams | Amherthnasol |
| 5 | | N Y | Philip C Harding | Amherthnasol |
| 6 | | N Y | Alwyn Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| 7 | | N Y | Tess Saunders | RNIB Cymru |
| 8 | | N Y | Angie Contetabile | SENSE Cymru |
| 9 | | N Y | Alex Massey | Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor |
| 10 | | N Y | Catherine Evans O'Brien | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| 11 | | N Y | Mary Duckett | Cyngor Trydydd Sector Cymru |
| 12 | | N Y | John Cushen | Y Ffederasiwn Rhieni |
| 13 | Y | | | |
| 14 | | N Y | Rachel Lewis | AGE Cymru |
| 15 | | N Y | Rosanna Roisain | Y Coleg Nyrsio Brenhinol |
| 16 | | N Y | Anhysbys | Aelod o Bwyllgor Deintyddol Cymru |
| 17 | | N Y | Mervyn Tucker | Grŵp Monitro Tai Ceredigion |
| 18 | | N Y | Carol Walker | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| 19 | | N Y | Michelle Lewis | Cyngor ar Bopeth |
| 20 | | N Y | Stewart Blythe | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| 21 | | N Y | Jim Crowe | Anabledd Dysgu Cymru |
| 22 | | N Y | Kieron Rees | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru |
| 23 | Y | | | |
| 24 | | N Y | Sue Roberts | CBS Rhondda Cynon Taf |